**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher, Ebrill 30ain, 2025 am 7.08 yh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol** | | | |
| **Cynghorwyr** | J. Tandy<br>D. Hopkins<br>P. H. Roberts | E. W. Nicholas,<br>Mrs A. J. Evans | L. Wilkins<br>R. Barnes |
| **Yn mynychu arlein** | D. Thomas | K. D. L. Davies | |
| **Ymddiheuriadau** | C. R. Thomas | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR EBRILL 30ain, 2025, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.**

**711.**

**Trafodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol:**

Ystyriaethau cynllunio i'w HYSTYRIED ym mis Ebrill:

**Cais Cynllunio Rhif** PL/09170

- Tir oddiar 119 Heol Waterloo, Penygroes, Llanelli, SA14 7PU
- Datblygiad Preswyl Arfaethedig

**Sylwadau:** Roedd hi'n amlwg bod y gwaith papur ar y porth cynllunio yn anghyflawn, felly roedd hi'n anodd gwneud sylwadau manwl a chytbwys; un camgymeriad a nodwyd oedd y cyfeiriad at 'dim perthi neu goed' ac yna cyfeirio at 'wernen', sydd wrth gwrs yn goeden.

**Cais Cynllunio Rhif** PL/09173

- Cartref Gofal Plas Y Bryn, Heol Thornhill, Cwmgwili, Llanelli, SA14 6PT
- Dymchwel y cartref gofal gwag 32 gwely presennol ac adeiladu cartref gofal 60 gwely newydd, ynghyd â gwaith tirlunio a pharcio cysylltiedig.

**Sylwadau:** Byddem ni'n croesawu cyfleusterau gofal modern newydd.

**Cais Cynllunio Rhif PL/09190**

- Tafarn y Llwyn Iorwg, Heol yr Eglwys, Llandybïe
- Llety gwyliau 2 ystafell wely

**Sylwadau:** Dim gwrthwynebiad.

**712.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.26 yh